

## Inspiration

Mae Inspiration yn **rhaglen mapio meddwl bwerus** sy'n eich galluogi i **gynllunio a mapio** eich syniadau, gwneud nodiadau ar ddarlithoedd, llunio aseiniad neu hyd yn oed wneud cynllun i'r diwrnod.

Mae Inspiration yn gweithio'n weledol trwy greu naill ai map meddwl neu siart llif, yna mae'n **trosi'r wybodaeth** yn destun neu'n gyflwyniad trefnus. Gallwch **olygu'r** testun hwn o fewn y rhaglen ei hun neu ei **allforio** i Microsoft Word neu PowerPoint.

Mae gan Inspiration nifer o **fideos hyfforddi** trwy ei ddewislen cymorth, o dan fideo hyfforddi.

Dyma ychydig o **awgrymiadau a syniadau** i'ch helpu i ddefnyddio Inspiration:

- Gellwch roi **gwahanol liwiau** i'r diagramau, mewnforio lluniau, mewnosod cysylltiadau â gwefannau, newid y ffont a'r lliw ac allbrintio mewn gwahanol fformatau.
- Mae Inspiration yn arf ardderchog **os ydych yn dysgu'n weledol** ac mae'n eich helpu i gyfuno gwybodaeth, a'i rhannu'n **ddarnau hylaw i chi gael adolygu**.
- Mae'r gallu i ychwanegu nodiadau at y swigod yn eich galluogi i **ddechrau adeiladu traethawd** neu adroddiad ymchwil o fewn y diagram ei hun.

Unwaith byddwch wedi allforio'r ddogfen, gallwch ei glanhau a'i gosod yn y fformat priodol.

- Gellwch ddefnyddio Inspiration ar gyfer  **unrhyw fath o weithgarwch, bron**, o greu rhestr, cynllunio traethawd, neu drefnu cyflwyniad. Mae'n rhaglen ardderchog a chyfleus.

